

DAVIES, JAMES KITCHENER (1902 - 1952), bardd, dramodydd a chenedlaetholwr

Enw: James Kitchener Davies

Dyddiad geni: 1902

Dyddiad marw: 1952

Priod: Mair Irene Kitchener Davies (née Rees)

Plentyn: Manon Jones (née Davies)

Plentyn: Mari Luned Llwyd (née Davies)

Plentyn: Megan Davies

Rhiant: Martha Davies (née Davies)

Rhiant: Thomas Davies

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: bardd, dramodydd a chenedlaetholwr

Maes gweithgaredd: Eisteddfod; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Gwladgarwyr; Barddoniaeth; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol

Awdur: Gwilym Tudur

Ganwyd 16 Mehefin 1902, yn fab i Thomas Davies o deulu Pant-glas, Blaencaron, a Martha (ganwyd Davies), merch Pantfallen, Tregaron, Ceredigion. Ym Mhantfallen y ganwyd eu meibion, Thomas, John ac yna James; ymhen tua blwyddyn symudodd y teulu i'r Llain, Llwynpiod, tyddyn ar gyrion Cors Caron, lle y ganwyd eu merch Letitia.

Cafodd James ei addysg gynradd yn ysgol yr eglwys, Tregaron. Pan oedd yn saith oed collodd ei fam, ac anfonwyd ef am gyfnod i Banbury (o'r lle y dychwelodd yn Sais bach uniaith!). Magwyd y plant wedyn yn y Llain gan fodryb iddynt, Mary Davies. Yn 1915, aeth i ysgol sir Tregaron. Yma y glynodd yr enw ' Kitchener ' wrtho; tarddodd hynny o hen gellwair teuluol fod ei dad, a'i fwstas, yn debyg i'r maeslywydd Prydeinig nid anenwog, a 'Kitch' fu yntau i bawb wedyn.

Yr oedd y tad yn ŵr cydnerth yn gweithio yng nglofa'r Garw ac yn dychwelyd i drin y tir bob gwanwyn, haf a Nadolig. Eithr daeth tro ar fyd pan briododd hwnnw yr eilwaith ac ymgartrefu ym Mlaengarw. Golygai hynny werthu'r tyddyn, a bu raid i'r fodryb adael a mudo i Donypanyd yn 1919.

Cafodd y profiad o chwalu'r aelwyd argraff ddwys ar y llanc. Yn Nhonypandy yr oedd ei gartref bellach, eithr am y ddwy flynedd olaf yn yr ysgol arhosai mewn llety yn Nhregaron. Dyma'r pryd y cafodd nawdd a dylanwad arhosol yr athro hanes, S.M. Powell, a greodd ynddo ef fel mewn cynifer o enwogion y cylch hwnnw, serch at hanes a diwylliant ei fro a'i genedl, ac yn y ddrama a siarad cyhoeddus.

Gadawodd yr ysgol yng Ngorffennaf 1921 a mynd yn ddisgybl-athro i Flaengwynfi. O 1922 hyd 1925 dilynodd gwrs B.A. yn y Gymraeg ac addysg ynghyd â hanes, Lladin, ac athroniaeth yng Ngholeg y Brifysgol, Aberystwyth. Dyma 'Aber' y dygyfor creadigol a grewyd gan **Idwal Jones** a'i debyg. Dyma hefyd gyfnod y cyn-filwyr a'r gwrthwynebwyr cydwybodol (yr oedd ei gyfaill **Gwenallt** (David J. Jones) yno tua'r un pryd), a thyfodd diddordeb Kitchener ym merw gwleidyddiaeth a heddwch Ewrob. Bu'n ysgrifennydd cymdeithas ddadlau'r coleg ac yn aelod o gyngor y myfyrwyr gan arwain mudiadau cymorth myfyrwyr y Cyfandir a Chynghrair y Cenhedloedd, a'u cynrychioli am fis mewn ysgol materion cydwladol yng Ngenefa yn 1925. Wedi cael ei dystysgrif athro yn 1926 aeth i ddysgu i Gwm Rhondda, ac yno mewn nifer o ysgolion y gweithiodd am weddill ei oes. Yn fuan wedi mynd yno bu farw'r fodryb, a dywed ef mewn ysgrif y bu hyn yn gymaint o golled iddo ag a brofodd o golli ei fam a gadael y Llain gynt.

Os bu gafael ei blentyndod a bro ei febyd yn drwm arno ef a'i waith, nid llai fu arwyddocâd y Rhondda iddo. Gweithiodd yn ddiarbed dros fywyd ac achosion Cymraeg y Cwm, talcen caled na fennodd ddim ar ei ysbryd. Arweiniodd frwydr hir i sefydlu'r ysgol Gymraeg yno. Gwasanaethodd dryfrith o gymdeithasau a sefydliadau cenedlaethol ynglŷn â diwylliant, addysg a heddwch; a bu'n eithriadol brysyr yn trefnu a darlithio mewn addysg i oedolion. Ymboenai am dlodi a chyflwr economaidd y cwm oddi ar adeg y dirwasgiad, serch nad oedd lle amlwg i genedlaetholwr ym mudiadau'r gweithiwr yn ei oes ef; cynorthwyodd arbrawf cymdeithasol Maes yr Haf adeg y rhyfel. Yr oedd yn aelod o gapel Bethania, Tonypanyd, ac arferai bregethu hyd y cymoedd, er na charai enw na delwedd pregethwr.

Eithr fel un o ladmeryddion Plaid Cymru y daeth i'r amlwg. Yr oedd yn areithiwr meistrolgar a dylanwadol, â dawn i gynhyrfu. Canfasiai a chynhaliai gyrddau awyr-agored (yn aml yng nghwmni ysbrydoledig Morris Williams, a'i wraig **Kate (Roberts)** hefyd, a drigai yn yr un stryd am gyfnod). Wedi sefyll am y cyngor sir, safodd yn ymgeisydd seneddol ei blaidd yn nwyrain y Rhondda yn 1945, ac yn y gorllewin yn 1950, a thrachefn yn 1951, ychydig cyn ei salwch.

Priododd yn 1940 ag athrawes yn ysgol ramadeg Tonypanyd, Mair Rees, o Ffos-y-ffin ger Aberaeron, a chartrefu yn Aeron, Brithweunydd, Treallaw, lle y ganwyd eu tair merch, Megan, Mari a Manon.

Yr oedd yn arddwr, yn gwmniwr afieithus ac yn ddarllenwr eang. Ymdrwythodd yng ngweithiau **Pantycelyn** (W. Williams, 1717 - 1790). Gwerthfawrogi waith **Saunders Lewis** a T. S. Eliot, a mynnai yntau le i'r bardd yn y theatr. Yr oedd ganddo ddiddordeb egniol ym myd y ddrama; sefydlodd Gwmni Drama'r Pandy, y bu'n cynhyrchu ac actio ynddo yn y tridegau; daeth yn feirniad a darlithydd, a darlledodd gryd dipyn. Cyfrannodd lawer o erthyglau i'r wasg Gymraeg a Saesneg, ar wleidyddiaeth a drama gan amlaf. Derbyniwyd ef i Orsedd y Beirdd yn 1945 ar sail ei gyfraniad i'r ddrama Gymraeg.

Arbrofion llenyddol cyson ydoedd ei ddramâu ei hun iddo, ffrwyth cystadleuaeth yn aml. Yn 1935 cyhoeddwyd *Cwm glo*, y ddrama am ddryllio cymdeithas a moes un o deuluoedd y dirwasgiad y bu'r helynt cyhoeddus rhyfeddaf yn ei chylch. Y mae'r ferch ynddi yn gadael i ennill ei thamaid ar y stryd; gwrthodasid ei gwobrwo yn Eisteddfod Genedlaethol Aberafan yn 1932, a thyrrai pobl i'w gweld. Cyfansoddodd *Y tri dyn diarth* (1937), drama fer a addaswyd o un o storïau Hardy; *Susannah* (1938), drama un act seiliedig ar yr Apocryffa, a *Hen wlad fy nhadau* (1939), cyfieithiad o waith **Jack Jones**. Trasiedi farddonol yw *Meini gwagedd* (1944; ail arg. 1945) am gynt bywyd ar Gors Caron; gyda'i defnydd nodedig o gyfoeth iaith y fro, hi a ystyrir yn orau o'i waith, cyn *Sŵn y gwynn sy'n chwythu*. Cwplaodd bum drama arall: *Dies irae*, drama tair act ar

hanes Buddug; *Gloria in excelsis*, drama radio fer ar thema'r Pasg; *Miss Blodeuwedd*, ffars ar y chwedl, mewn cywaith â'i wraig; *Y fantell fraith*, ar y cyd â'i ddosbarth ysgol haf yn Harlech yn 1942; a hefyd *Ynys Afallon*, drama led-fydryddol ar hanes Cymru. Honno yn ei dyb ef, oedd ei arbrwf mwyaf uchelgeisiol.

Ni chanodd lawer o gerddi unigol. Serch hynny, fel bardd y cofir ef, oherwydd ei fod yn ei ychydig waith barddonol, ac yn arbennig mewn un gerdd hynod, wedi gadael neges i'w gyfnod. Ym *Meini Gwagedd*, '*Ing cenhedloedd*' ac '*Yr arloeswr*' ceir y byrdwn a ddatblygwyd yn derfynol yn *Sŵn y gwynt sy'n chwythu* (1953), pryddest gomisiwn a ddarledwyd yn 1952. Yn yr ysbyty, ac yntau rhwng dwy driniaeth lawfeddygol ar y cancr, yr ysgrifennodd hi, gan gaboli ac adrodd ei ffurf derfynol i'w wraig ei chofnodi. Cerdd ysgytwol ydyw a'r bardd yn dadwisgo'i holl gymhellion; felly y gwnaethai **Pantycelyn**, ond ceir yma lais newydd didostur. Dyry inni olwg ar bererindod arswydus hyd at wyddfod sancteiddrwydd, a thry ymbil y Cymro rhag ei ddyletswydd yn argyfwng dyn ym mhob oes. Fe'i cydnabyddir yn un o gerddi Cymraeg mwyaf yr 20fed ganrif, a daeth enw Kitchener yn gyfystyr â hi, yn ogystal ag â Chwm Rhondda a Phlaid Cymru.

Bu farw 25 Awst 1952, a chladdwyd ef ym mynwent Llethr Ddu, Trealaw. Dadorchuddiwyd cofeb iddo ar fur capel Llwynpïod ar 3 Medi 1977, ac yn 1980 cyhoeddwyd casgliad o'i brif weithiau, *Gwaith James Kitchener Davies*, gol. Mair Kitchener Davies.

Awdur

Gwilym Tudur

Ffynonellau

Dogfennau a gwybodaeth gan ei weddw, yn bennaf, a'i chwaer

Baner ac Amserau Cymru, 23 Awst 1944, 27 Awst 1952

Rhagymadrodd i *Swn y gwynt sy'n chwythu pryddest radio* (Dinbych 1953)

Alun Llywelyn-Williams, '*Kitchener Davies*,' *Lleufer*, gaeaf 1953

Barn, Ebrill, Awst, 1966

J.K. Davies, 'Adfyw', *Y Cardi cylchgrawn Cymdeithas Ceredigion*, 3 Awst 1968, 14-18

Ioan Williams, *Kitchener Davies* (Caernarfon 1985), llyfryddiaeth iawn

Mair Kitchener Davies (gol.), *Gwaith James Kitchener Davies* (Llandysul 1980)

Darllen Pellach

Archifau LIGC: Dwyrain Rhondda. Etholiad Cyffredinol i'r Senedd, Gorff. 5, 1945... Pledleisiwch tros Kitchener Davies

Archifau LIGC: Rhondda East Parliamentary Division General Election, July 5th 1945... Vote Kitchener Davies

Archifau LIGC: Etholaeth Dwyrain Rhondda Etholiad Cyffredinol, Gorffennaf 5ed, 1945... Pleidleisiwch Tros Kitchener Davies

Archifau LIGC: Rhondda West Parliamentary Division. General Election February 23rd, 1950. Kitchener Davies

Archifau LIGC: Voice of Wales. Parliament for Wales... Kitchener Davies

Archifau LIGC: Rhondda West Parliamentary Division General Election, October 25th 1951. James Kitchener Davies

Archifau LIGC: General Election, October 25th 1951... Pledleisiwch Kitchener Davies

Erthygl Wicipedia: James Kitchener Davies

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 8186055

Wikidata: Q6137411

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Tudur, G., (1997). DAVIES, JAMES KITCHENER (1902 - 1952), bardd, dramodydd a chenedlaetholwr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c4-DAVI-KIT-1902>

Prifysgol

Prefatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddi
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government